

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Charlotte Evans
(Rhif Ffôn: 01443 864210 E-bost: evansca1@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Mehefin 2020

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod digidol o'r **Cabinet** yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams ar **Dydd Mercher, 24ain Mehefin, 2020 am 10.30 am**. i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. . Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n bresennol ac/neu sy'n siarad yn ystod y Cabinet ar gael i'r cyhoedd trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cyngorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol: -

3 Cynhaliwyd y Cabinet ar 11eg Mawrth 2020. 1 - 10

Nodi- Blaenraglen Waith y Cabinet.

4 Blaenraglen Waith y Cabinet. 11 - 16

I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol y mae angen penderfyniadau gweithredol arnynt:-

5 Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020. 17 - 46

6 Ymateb y Cyngor i'r Pandemig Coronafeirws. 47 - 78

7 Trefniadau Gwneud Penderfyniadau COVID-19. 79 - 94

Cylchrediad:

Cynghorwyr

C.J. Cuss, N. George, C.J. Gordon, Mrs B. A. Jones, P.A. Marsden, S. Morgan, L. Phipps a Mrs E. Stenner,

A Swyddogion Priodol.

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r [Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn](#) ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DDYDD MERCHER, 11 MAWRTH 2020 AM 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), N. George (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Adfywio, Trafnidiaeth a Chynaliadwyedd), ac E. Stenner (Cyllid, Perfformiad a Chynllunio).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), M. Lloyd (Pennaeth Seilwaith), G. Roberts (Arweinydd Tîm, Swyddog Trafnidiaeth, Uned Trafnidiaeth Integredig), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Busnes Dros Dro a Swyddog S151 Dros Dro), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro).

K. Bevan (Cyfarwyddwr – EAS), J. Wood (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Dysgu Proffesiynol/Gwella Ysgolion – EAS), E. Pryce (Cyfarwyddwr Cynorthwyol)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd B. Jones (Addysg a Chyflawniad) ac L. Phipps (Cartrefi, Lleoedd a Thwristiaeth) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 26 CHWEFROR 2020

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir, yn amodol ar ddiwygiad mewn perthynas â Chofnod rhif 7 – Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025, yn ymwneud â'r ffaith nad oedd Arweinydd y grŵp Annibynnol yn bresennol yn y pwyllgor Polisi ac Adnoddau, ac felly na chafodd gyfle i drafod y mater fel y nodwyd yn y cofnodion.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – NODI

Rhodddwyd, i'r Cabinet, Flaenraglen Waith y Cabinet a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a oedd wedi'u hamserlennu o 25 Mawrth 2020 hyd at 7 Hydref 2020. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithio yw Blaenraglen Waith y Cabinet, ac felly y gall newid.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

MATERION YR OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL YN EU CYLCH

5. CYNLLUN BUSNES GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (EAS) (2020-2021) AC ATODIAD YR AWDURDOD LLEOL 2020-2021

Yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg ar 24 Chwefror 2020 ac a amlinellodd Gynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) (2020-2021) ac Atodiad yr Awdurdod Lleol 2020-2021.

Nododd y Cabinet ei bod hi'n ofynnol i'r EAS gyflwyno Cynllun Busnes rhanbarthol eang yn flynyddol, ac iddo atodiad ar gyfer pob un o'r pum Awdurdod Lleol (ALI). Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet ystyried Cynllun Busnes drafft yr EAS ac Atodiad ALI Caerffili yn rhan o'r broses ymgynghori rhanbarthol.

Nodwyd bod y Cynllun Busnes yn nodi sut y mae'r EAS yn bwriadu cynnig gwasanaethau gwella ysgolion ledled yr holl ysgolion, yr unedau cyfeirio disgyblion a'r lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n cael eu hariannu ar ran pob ALI. Mae'r cynllun yn nodi sut y caiff ALLau eu cefnogi i gyflawni eu swyddogaeth statudol, trwy fynd i'r afael â'u blaenoriaethau gwella unigol, a hyrwyddo gwell deilliannau i ddisgyblion.

Mae blaenoriaethau'r Cynllun Busnes wedi deillio o gynlluniau strategol ALLau, cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes blaenorol, a meysydd a nodwyd trwy hunanwerthuso ac ymchwil allanol. Cafodd y Cabinet wybod am y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yng Nghaerffili, y manylir arnynt yn Atodiad yr ALI, y gellir eu halinio â darpariaeth gwasanaethau'r ALI er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial llawn.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod yr EAS yn gwmni cyfyngedig dielw sy'n eiddo i'r pum ALI yn ne-ddwyrain Cymru. Trwy Gynllun Busnes cytunedig, mae'r EAS yn cyflwyno ystod eang o wasanaethau gwella ysgolion i bob ysgol (pob cyfnod allweddol, gan gynnwys ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig), unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n cael eu hariannu, ar ran pob ALI. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi'r rôl yr ALLau wrth gyflawni eu swyddogaeth statudol, gan fynd i'r afael â'u blaenoriaethau gwella unigol, a hyrwyddo gwell deilliannau i ddisgyblion.

Nodwyd bod blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Busnes wedi deillio o Gynlluniau Strategol Awdurdodau Lleol, o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes blaenorol, meysydd y nodwyd bod angen eu gwella trwy brosesau hunanwerthuso mewnol, ac ymchwil allanol.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod yr EAS o dan reolaeth model llywodraethu cadarn sydd wedi'i seilio ar Gytundeb Cydweithredu ac Aelodau (CAMA) ac Erthyglau Cymdeithasu. Mae sicrhau bod yr EAS yn cynnig gwerth am arian o'r pwys mwyaf. Yn rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae'n bwysig bod cyllidebau'n cael eu dyrannu'n ddoeth. Mae'r EAS yn ceisio cyflawni gwell byth gwerth am arian trwy fantoli'r gyllideb a darparu gwasanaethau o fewn cyfyngiadau ei gyllideb, gwneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd lle bynnag y bo modd, a thrwy sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfraddau dirprwyo grantiau i ysgolion.

Mae'r gyfradd dirprwyo grantiau i ysgolion wedi cynyddu 94%, a phroffil staff EAS wedi cynyddu 48% ers 2012. Yn wreiddiol, pennwyd targed incwm masnachu trwy ysgolion o £1.25m i elfen o'r EAS, fel bod cyfrifon diwedd y flwyddyn yn gytbwys. Mae hyn bellach wedi'i ddileu'n llwyr o fod yn ddibynnol ar incwm, ac ni chodir tâl ar ysgolion, bellach, am unrhyw hyfforddiant nac am wasanaethau a ddarperir yn unol â'r cynllun busnes.

Mae cyllid awdurdodau lleol ar gyfer gweithio mewn consortiwm wedi'i seilio ar y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014. Argymhellodd y model ddyraniad cyllid craidd o £3.6m ar gyfer yr EAS. Mae cyfraniad craidd presennol ALLau yn seiliedig ar y ffigurau hyn, wedi tynnu arbedion effeithlonrwydd o £1.17m o flwyddyn i flwyddyn er 2012, y cytunwyd arnynt mewn cydweithrediad â'r 5 ALI. Mae ffigurau dangosol yr ALLau ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn: £1,005,705 yw cyfraniad ALI Caerffili o 2020/21, o gymharu â £1,021,020 yn 2019/20.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi rhai gwelliannau i adran 5.26 o'r adroddiad, sy'n cyfeirio at Risgiau ALI Caerffili:

- Nid yw canran ddigon uchel o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd a ddisgwyliar ac yn cyflawni deilliannau priodol yng Nghyfnod Allweddol 4, yn enwedig yn y Saesneg a mesurau Capio 9.
- Nid yw ansawdd arweinyddiaeth, ar draws pob cyfnod addysg, yn gwella cyflymed â'i thrywydd presennol.
- Mae nifer y disgyblion sy'n ennill graddau A-A* yng Nghyfnod Allweddol 5 yn parhau yn rhy isel.
- Nid yw dysgwyr sy'n agored i niwed, ym mhob cyfnod, yn gwneud cynnydd digonol.
- Nid yw disgyblion yn meithrin digon o sgiliau yn ymwneud â chymhwysedd digidol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Wrth nodi'r Risgiau, mynegodd Aelod o'r Cabinet bryderon ynghylch Ansawdd Arweinyddiaeth a Chymhwysedd Digidol. Eglurodd y Swyddogion eu bod wedi'u nodi yn risgiau, gan ei bod yn annhebygol y bydd pob ysgol yn perfformio yn y fath fodd bob amser. Fodd bynnag, sicrhawyd yr Aelodau y buddsoddwyd yn sylweddol mewn Sgiliau Arwain ar gyfer rhai ysgolion, a rhagwelir y bydd yr un prosiect yn cael ei gyflwyno ar draws ysgolion eraill. Yn ogystal, mae nifer o ddulliau cadw cydbwysedd ar waith er mwyn lliniaru effaith y Risgiau hyn a nodwyd. Darparwyd rhagor o wybodaeth ynghylch Cymhwysedd Digidol ac eglurwyd bod y Risg hwn yn ymwneud â rhaglen dechnoleg newydd a gaiff ei chyflwyno ym mhob ysgol.

Yng ngoleuni'r pryderon, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ychwanegu argymhelliad ychwanegol i fonitro ac adolygu cynnydd y Risgiau a nodwyd.

Ar ôl ystyried a thrafod yr argymhelliad ychwanegol, a'i gynnwys, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid gohirio'r adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, ac yn amodol ar argymhelliad ychwanegol (iii):

- i) Ystyried a nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg;
- ii) Cytuno ar Gynllun Busnes yr EAS a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- iii) Adolygu a monitro'r risgiau yn rheolaidd, fel y'i nodwyd yn yr adroddiad, ac adrodd arnynt i'r Cabinet.

6. **AMCANION A CHAMAU GWEITHREDU'R CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024**

Gofynnodd yr adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 25 Chwefror 2020, am farn y Cabinet ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft.

Nododd y Cabinet fod gan y Cyngor ddogfen weithredol bedair blynedd ar waith ers mis Ebrill 2016, a elwir yn Gynllun Cydraddoldeb Strategol – yn ymwneud ag amcanion Strategol Cydraddoldeb a'r Gymraeg, sydd wedi'i gefnogi gan Gynllun Gweithredu ar wahân.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wedi ei adolygu'n llawn o'i gymharu â'r fersiwn flaenorol, er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn arfer gorau ac amcanion, neu i gynnig gwybodaeth ychwanegol. Datblygwyd yr Amcanion a'r Cynllun Gweithredu cyfunol er mwyn ystyried cyflawniadau a chynnydd, a'u cyfuno mewn un ddogfen weithredol.

Datblygwyd y cynllun fel bod modd i'r Cyngor nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, a sut y bydd yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi defnyddio dogfennau allweddol i helpu i ddatblygu'r cynllun diwygiedig, megis y Cynllun Corfforaethol 2018-2023, a Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir yr adran addysg, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr gwasanaethau.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 7 Amcan Cydraddoldeb, sef:

- Cynllunio a Darparu Gwasanaethau
- Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth
- Cydlyniant Cymunedol
- Ymgysylltu a Chyfranogi Cynhwysol
- Y Gymraeg
- Gweithlu Cynhwysol, Amrywiol a Chyfartal
- Lleihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Nodwyd bod ymgynghoriad ffurfiol wedi ei gynnal ym mis Tachwedd 2019. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu targededig â rhanddeiliaid sydd â diddordeb penodol mewn cydraddoldeb e.e. Anabledd, y Gymraeg, a Rhieni ac ati, Aelodau etholedig, rheolwyr gwasanaethau a staff. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad wedi'i atodi yn Atodiad B yr adroddiad.

Nododd y Cabinet fod yr adborth ar y broses ymgynghori yn gefnogol iawn i'r amcanion drafft ar y cyfan. Mae'r meysydd i'w gwella a'r rhwystrau a nodwyd wedi'u cynnwys yn gamau gweithredu o dan bob Amcan Cydraddoldeb perthnasol. Gofynnwyd i Aelodau nodi yn yr Adroddiad Ymgynghori, ynghyd â'r adborth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad, y cyfeiriwyd at sylwadau sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi ychydig o welliannau sydd a wnaed ar gyfer eglurder yn unig, ers cyflwyno'r drafft i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau:

- Caiff y **Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu**, sydd newydd ei fabwysiadu, ei ychwanegu at Amcan Cydraddoldeb 4 o dan **Dogfennau Ategol**.
- Amcan Cydraddoldeb Strategol 6 – Pwynt Gweithredu 4. Byddwn yn nodi'r rheoliadau

penodol a gafodd eu crybwyll fel a ganlyn: **Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

- Caiff brawddeg ei hychwanegu at y paragraff olaf ar dudalen 31 y Cynllun, a fydd yn dweud; **Er y gwnaed ymdrech i ymgynghori â phob sector o'r gymuned, mae'n amlwg nad oedd rhai rhanddeiliaid wedi cymryd rhan yn y broses.**

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a'r camau gweithredu cysylltiedig; yn sicrhau bod gan y Cyngor ddogfen addas i'r diben sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol diweddaraf yn ymwneud â Chydraddoldeb a'r Gymraeg. Fe'i datblygwyd yn unol â gofynion a chanllawiau deddfwriaethol a luniwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Yn hyn o beth, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr adroddiad ac argymhell i'r Cyngor ei gymeradwyo ar 21 Ebrill 2020.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Mynegodd Aelod o'r Cabinet bryderon ynghylch ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd; gofynnodd am ragor o wybodaeth am weithgarwch y Cyngor i gefnogi'r Gymuned Drawsryweddol ac unigolion yn y gweithle. Eglurodd Swyddogion fod hyfforddiant ar gael ar gyfer staff ac Aelodau. Yn flaenorol, gofynnodd Gwasanaethau Hamdden am hyfforddiant ymwybyddiaeth o Drawsrywedd i staff, er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â defnyddio ystafelloedd newid mewn canolfannau hamdden. Mae'r tîm yn gweithio'n agos ag Umbrella Cymru a phartneriaid eraill, yn cynnwys y Grŵp Ieuenctid ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) er mwyn rhoi cymorth a chyngor yn ôl yr angen. Yn ogystal, cynhelir diwrnodau ymwybyddiaeth staff i dynnu sylw at ddiwrnodau ymwybyddiaeth penodol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'r Gymraeg, a bod yn gyfle i ofyn am gyngor a chymorth mewn perthynas â'u gwaith.

Sicrhawyd y Cabinet bod y Cyngor yn anelu at rymuso staff a chynnig y cymorth sydd ei angen, sydd wedi'i wreiddio yn y sefydliad cyfan, yn cael ei gefnogi a'i ddathlu.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad Swyddog:

- i) Ystyried y farn a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu;
- ii) Cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, yr Amcanion a'r Camau Gweithredu i'r Cyngor i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu yn bolisi'r Cyngor.

7. CYDWEITHIO AR YR UNED TRAFNIDIAETH INTEGREDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 11 Chwefror 2020, ac mae'n amlinellu'r cynnig i Unedau Trafnidiaeth Integredig (ITU) Cyngorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Rhondda Cynon Taf gydwethio er mwyn creu canolfan ragoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau trafndiaeth i deithwyr y ddau awdurdod lleol.

Nodwyd bod Caerffili a Rhondda Cynon Taf wedi bod yn trafod y potensial o greu Uned Trafnidiaeth Integredig ar y cyd. Mae eisoes gan y ddau gyngor Unedau Trafnidiaeth Integredig sy'n cael eu rhedeg yn dda, a chanddynt adnoddau digonol, sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau bws cyhoeddus, cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a chludiant Gwasanaethau Cymdeithasol i oedolion a phlant agored i niwed. Y cynnig yw defnyddio'r gwaith da y mae'r ddau gyngor eisoes yn ei wneud trwy eu Hunedau Trafnidiaeth Integredig, yn sail i greu cydnerthedd a gallu a fydd yn sicrhau parhad y busnes.

Y cynnig yw bod strwythur rheoli ar y cyd yn cael ei roi ar waith er mwyn rheoli Uned Trafnidiaeth Integredig y ddau Gyngor, a thrwy'r cydweithio hwn, byddai'r ddau gyngor yn rhannu adnoddau i greu canolfan ragoriaeth er mwyn darparu gwasanaethau trafndiaeth ar gyfer teithwyr Caerffili a Rhondda Cynon Taf.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Nodwyd bod y cydweithio yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru, a bod yr Awdurdod Lleol yn arwain ym maes Trafnidiaeth. Byddai cydweithio ag awdurdod lleol arall, gan rannu adnoddau a gwasanaethau, yn cyfrannu at agenda drawsnewid Caerffili "tîm Caerffili", ac agenda gydweithio Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd un Aelod am ragor o wybodaeth am yr amserlenni o ran cyflwyno'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Esboniodd Swyddogion ei bod dal yn ddyddiau cynnar i'r prosiect, ond gobeithir y gellir defnyddio'r cydweithio hwn yn gyfle i fod yn fenter fasnachol, gan dargedu ardal y Fargen Ddinesig ehangach. Mae gwaith ar y gweill gyda'r Swyddogion Datblygu Busnes er mwyn ystyried ehangu elfen fasnachol y cydweithio.

Nodwyd bod hwn yn wasanaeth arbenigol, ac felly ymholodd Aelod ynghylch defnyddio prentisiaid. Esboniodd Swyddogion nad yw hyn wedi'i ddatblygu eto gan mai newydd gychwyn y mae'r prosiect; fodd bynnag, mae'n rhywbeth i'w ystyried ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gan fod yma weithlu sy'n heneiddio ac o ystyried arbenigedd y pwnc. Nodwyd bod prentisiaid yn cael eu cyflogi yn yr Is-adran ehangach ar hyn o bryd, a fydd yn cael eu symud i rolau technegol cyn hir, ac felly gobeithir y gellir recriwtio prentisiaid ychwanegol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:-

- i) Cytuno i'r Cyngor weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i greu canolfan ragoriaeth er mwyn darparu gwasanaethau trafndiaeth i deithwyr ledled Caerffili a Rhondda Cynon Taf.
- ii) Y dylid ceisio awdurdod dirprwyedig oddi wrth y Cabinet i gymeradwyo a diwygio'r cynllun busnes a chyflenwi ar gyfer y tîm rheoli ar y cyd, ac i baratoi a chytuno ar Gylch Gorchwyl y cyd-fwrdd/grŵp llywio mewn ymgynghoriad â'r Cabinet/Aelodau Gweithredol perthnasol.

8. CYHOEDDI DATA'R BWLCH CYFLOG AR SAIL RHYW 2019 – RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU PENODOL AC AWDURDODAU CYHOEDDUS) 2017.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig bwlch cyflog rhwng y rhywiau yr Awdurdod ar gyfer 2019.

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017 mae'n ofynnol i bob sefydliad, a restrir yn Atodlen 2 i'r rheoliadau sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr, adrodd yn flynyddol ar eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 2017 ymlaen.

Bydd y darpariaethau o dan y Rheoliadau hyn yn gymwys yn unig i gyflogeion a benodir ac a reolir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Felly, nid yw'n ofynnol i gyflogeion a benodir ac a reolir gan benaethiaid ysgol/cyrff llywodraethu gael eu cynnwys o fewn cwrmpas data bwlch cyflog rhwng y rhywiau'r Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa unigryw o ran deddfwriaeth

cyflogaeth, sy'n golygu bod pob gweithiwr ysgol yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol, ond bod penderfyniadau ynghylch penodi a rheoli gweithwyr o'r fath yn cael eu cyflawni'n bennaf gan benaethiaid/cyrff llywodraethu, fel y bo'n briodol. Ni fydd yn ofynnol i ysgolion Caerffili gyhoeddi ac adrodd ar eu ffigurau penodol eu hunain gan nad oes unrhyw ysgol yn cyflogi mwy na 250 o staff. Mae'n ofynnol i ddata bwllch cyflog rhwng y rhywiau'r Cyngor gael eu cyhoeddi ar ein gwefan ein hunain a gwefan y Llywodraeth erbyn 30 Mawrth bob blwyddyn. Rhaid i'r data gynnwys y tâl fesul awr, fel ffigur cymedrig (gan nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfartaledd cyflog dynion a menywod) a'r ffigur canolrif, (gan nodi'r gwahaniaeth rhwng canolbwyntiau o fewn ystodau cyflog dynion a menywod). Caiff cyflogwyr eu hannog i lunio datganiad ysgrifenedig yn esbonio'r data.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r bwllch cyflog cymedrig a chanolrif rhwng y rhywiau mewn perthynas â thâl bonws. Bydd y Cabinet yn ymwybodol nad yw'r Cyngor yn cynnig gwaith ar dasg na chynlluniau cymell bonws.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Ailadroddodd y Cabinet nad yw'r adroddiad yn deillio o dalu cyflogeion gwrywaidd a benywaidd yn wahanol am yr un gwaith neu am waith cyfatebol, ond mae'n ganlyniad i'r rolau y mae dynion a menywod yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu. Mae'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau yn adlewyrchu achosion y bwllch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel gymdeithasol. Mae'r mwyafrif helaeth o swyddi yn y chwarter isaf o ddata yn swyddi rhan amser. Swyddi yw'r rhain sy'n parhau i ddenu ymgeiswyr benywaidd yn bennaf.

Holodd un Aelod pam mai menywod yn bennaf sy'n dal swyddi gofalu, arlwyo a glanhau. Eglurodd y Swyddogion mai'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yw hyn yn bennaf; mae'r swyddi fel arfer yn rhai rhan-amser ac yn aml yn cyd-fynd â chyfrifoldebau gofal, ac mae'n adlewyrchu cefnogaeth barhaus y Cyngor i staff, gan hyrwyddo cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Nodwyd y bu gofyniad yn y gorffennol i gyflogi dynion sy'n ofalwyr, a bu'n anodd eu recriwtio.

O ran cofnodi'r swyddi, lle mae nifer o gyflogeion yn ymgymryd â nifer o rolau rhan-amser, holwyd sut y caiff y rhain eu cofnodi. Esboniodd Swyddogion fod y swyddi yn cael eu cofnodi, hyd at ddiwedd 2019, felly i bob pwrpas gellid cyfrif cyflogai ddwywaith, os oes ganddo ddwy swydd.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, y dylid cytuno ar y datganiad ysgrifenedig, fel sydd wedi ei atodi gyda'r Adroddiad, sy'n rhoi manylion data'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau, i'w gyhoeddi ar wefan y cyngor a gwefan y Llywodraeth ar-lein gan ddefnyddio'r gwasanaeth adrodd ar y bwllch cyflog.

9. AWDURDODI SWYDDOGION I DDIOGELU'R CYHOEDD – ISAFBRIS UNED (MUP) ALCOHOL

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Cabinet am y ddeddfwriaeth newydd ar Isafswm Prisiau Alcohol yng Nghymru ac yn ceisio awdurdodiad o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ar gyfer swyddogion yr isadran Diogelu'r Cyhoedd.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i Swyddog Monitro'r Cyngor wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r modd yr oedd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn cael ei rhoi ar waith, ac adlewyrchir hyn yn y diweddariad o'r Cyfansoddiad yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor fis Mai 2020.

Nodwyd bod angen awdurdodiad ychwanegol ar Swyddogion o fewn yr Is-adran Diogelu'r Cyhoedd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Wrth nodi'r ddeddfwriaeth, mynegwyd pryderon ynghylch ceidwaid siopau a manwerthwyr bychain yn y Fwrdeistref. Eglurodd y Swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi Ymgyrch Gyfathrebu ar waith, a bod yr awdurdod lleol wedi darparu rhestr o'r manwerthwyr, gyda'r nod o roi manylion newidiadau Isafbris Uned Alcohol i fanwerthwyr. Bydd Swyddogion Safonau Masnach yn cynnig rhagor o gymorth yn rhan o'u harolygiadau rheolaidd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y bydd dull gweithredu graddol yn cael ei roi ar waith cyn cymryd camau gorfodi, er mwyn caniatáu i'r Isafbris Uned Alcohol ymsefydlu.

Gofynnodd un Aelod am ragor o wybodaeth am yr Isafbris Uned Alcohol a phwy sy'n elwa o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau alcohol. Eglurodd Swyddogion nad treth yw'r cynnydd, felly manwerthwyr fyddai'n elwa arno; fodd bynnag y nod yw lleihau faint o alcohol sy'n cael ei werthu, ac o ganlyniad, fe ddylai hyn gydbwyso. Nodwyd bod deddfwriaeth debyg ar waith yn yr Alban, na chafwyd adborth amdano hyd yma. Cytunodd y Swyddogion i ddarparu'r adroddiadau a ryddhawyd i'r Cabinet ar y cynllun sydd ar waith yn yr Alban, ond nid yw adroddiadau lechyd wedi'u darparu ar hyn o bryd.

Gwnaeth un o'r Aelodau ymholiad mewn perthynas â phrisiau a argraffwyd ar becynnu alcohol a gweithrediad y Ddeddf. Eglurodd Swyddogion y bydd yn drosedd i werthu alcohol o dan yr Isafbris Uned Alcohol, ac er bod Deddfwriaeth Diogelu Defnyddwyr ar waith, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn disodli'r ddeddfwriaeth Defnyddwyr.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddogion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddogion: -

- i) Bod Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei awdurdodi, o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 fel y gall swyddogion o fewn yr isadran ddefnyddio pwerau dirprwyedig i gyflawni eu dyletswyddau.
- ii) Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor trwy ychwanegu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018.

10. **STORM DENNIS**

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i ariannu'r pecyn cymorth ariannol a gyhoeddwyd yn y Cyngor ar 20 Chwefror 2020.

Nodwyd bod y llifogydd diweddar yn y fwrdeistref sirol, o ganlyniad i storm Dennis, wedi effeithio ar lawer eiddo a bod trigolion a busnesau yn gorfod wynebu'r gwaith glanhau aruthrol.

Mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 20 Chwefror 2020, cyhoeddodd yr Arweinydd fanylion am becyn cymorth ariannol i drigolion a busnesau a oedd wedi eu heffeithio gan y llifogydd. Mae hyn yn cynnwys taliad untro o £500 ar gyfer aelwydydd cymwys, a £1,000 ar gyfer busnesau. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor hefyd y byddai swm cychwynnol o £250k yn cael ei neilltuo.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth arno.

Nodwyd yr effeithiwyd ar 242 eiddo, ac y cysylltwyd â'r rhan fwyaf ohonynt a chynnig cefnogaeth iddynt, a bod gwaith yn parhau i gyrraedd pob eiddo sy'n weddill. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig Cynllun Cymorth Dewisol, y cwblhawyd 86 o geisiadau ar ei

gyfer gyda chymorth Swyddogion; mae 48 dal heb eu cwblhau, ond mae Swyddogion yn gweithio i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.

Roedd y Cabinet a'r Swyddogion yn dymuno nodi bod ymdrechion a chefnogaeth staff, ar draws nifer o wasanaethau, yn rhagorol yn ystod cyfnodau mwyaf tyngedfennol y llifogydd. Paratôdd staff yn gyflym iawn i ddiwallu anghenion y preswylwyr, gan sicrhau bod gwasanaethau gofal ar gael ar gyfer aelodau o'r fwrdeistref sy'n agored i niwed, a chynorthwywyd gyda'r argyfwng llifogydd. Ychwanegodd yr Arweinydd fod lobiö ar y gweill, o ran Llywodraeth ganolog a Llywodraeth Cymru, i gael cymorth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan Storm Dennis, ac i gael cymorth gyda'r gwaith seilwaith mawr sydd ei angen.

Yn olaf, amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro, mewn perthynas â 7.1 yn yr adroddiad a'r Rheoliadau Ariannol, y llywodraethu da a gyflawnwyd yn rhan o'r broses.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddogion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, y dylai'r £250k a neilltuwyd ar gyfer y pecyn cymorth ariannol gael ei ariannu o danwariant a ragamcanwyd yng nghyllidebau Ariannu Cyfalaf 2019/20.

11. MATER EITHRIEDIG

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf budd i'r cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad, at ei gilydd, fod y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y cyhoedd yn cael ei wahardd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraff(au) 14 Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

12. GWERTHU TIR GERLLAW TŶ DYFFRYN, YSTRAD MYNACH

Gofynnwyd i'r Cabinet dynnu'r adroddiad yn ôl.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid tynnu'r adroddiad yn ôl. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a roddwyd yn y cyfarfod, y dylid tynnu'r eitem yn ôl.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.42am.

Cymeradwywyd, a llofnodwyd yn gofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2020.

CADEIRYDD

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Dyddiad Cabinet	Teitl	Materion Allweddol	Awdur
24/06/20 10:30	Ymateb y Cyngor i'r Pandemig Coronafeirws.	Er mwyn rhoi trosolwg i'r Cabinet o ymateb y Cyngor i COVID-19. I roi trosolwg i'r Cabinet o'r dull a gymerwyd i nodi a lliniaru a rheoli risgiau mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn tynnu sylw at y risgiau allweddol cyfredol y mae'r Cyngor yn eu rheoli. Er mwyn ailddatgan egwyddorion amcanion ac egwyddorion trawsnewid TîmCaerffili y darperir gwasanaethau arnynt.	Harrhy, Christina;
24/06/20 10:30	Trefniadau Gwneud Penderfyniadau COVID-19.	I ddiweddarar'r Cabinet ar yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar benderfyniadau'r Cyngor. I nodi'r camau nesaf.	Edmunds, Richard (Ed);Tranter, Robert J.
24/06/20 10:30	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020.	I geisio cadarnhad y Cabinet o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 yn erbyn pedwar maes penodol o'r iaith Cymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.	Cullinane, Anwen;
01/07/20 10:30	Model Buddsoddi Cydfuddiannol Partneriaeth Addysg Cymru Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cytundeb Partneriaeth Strategol.	I gytuno ar egwyddorion y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.	West, Andrea;

<p>Estyniad i'r Cyfnod Ymddeol Hyblyg Oherwydd Amgylchiadau Eithriadol - 01/07/20 10:30 Cartrefi Caerffili.</p>	<p>hyblyg presennol y tu hwnt i'r ddwy flynedd fel y cytunwyd yn wreiddiol yn unol â'r polisi ymddeol hyblyg. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r lefel ofynnol o adnoddau ac arbenigedd i gwblhau gwaith allanol y rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru yn unol â therfynau amser Llywodraeth Cymru oherwydd oedi a gafwyd wrth barhau â gwaith o ganlyniad i'r pandemig parhaus COVID- 19.</p>	<p>Couzens, Shaun;</p>
<p>01/07/20 10:30 Adroddiad Alldro Dros Dro 19/20.</p>	<p>I ddarparu manylion i'r Cabinet o'r alldro dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 cyn casgliad yr archwiliad blynyddol gan Archwiliwr Allanol yr Awdurdod, Grant Thornton.</p>	<p>Harris, Stephen R;</p>
<p>22/07/20 10:30 Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus: Rheoli Cŵn ar Feysydd Chwaraeon</p>	<p>I geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad ar Orchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus drafft i wahardd cŵn o gaeau chwaraeon y Cyngor.</p>	<p>Hartshorn, Robert;</p>
<p>22/07/20 10:30 Llunio Llefydd</p>	<p>I rannu gyda'r Cabinet gyfres o gynigion Llunio Llefydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</p>	<p>Harrhy, Christina;</p>
<p>22/07/20 10:30 Gweithio Ystwyth/Hyblyg</p>	<p>I ystyried dull gweithio ystwyth/hyblyg ar gyfer yr Awdurdod.</p>	<p>Edmunds, Richard (Ed);</p>
<p>09/09/20 10:30 Cynllun Adsefydlu'r DU.</p>	<p>I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfranogiad yr Awdurdod yng Nghynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed y DU a sut mae'r rhaglen adsefydlu yn cael ei ddiwygio ar ôl 2020</p>	<p>Peters, Kathryn;</p>
<p>09/09/20 10:30 Taliadau Rheoli Lesddeiliaid</p>	<p>I geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynyddu taliadau gwasanaeth lesddeiliaid i adennill costau gwirioneddol ac osgoi cymhorthdal parhaus gan y Cyfrif Refeniw Tai</p>	<p>Couzens, Shaun;</p>
<p>09/09/20 10:30 Panel Grantiau i'r Sector Gwirfoddol - Adolygiad o Grantiau Meini Prawf Cyffredinol</p>	<p>I geisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r cynnydd arfaethedig mewn Grantiau Meini Prawf Cyffredinol sydd wedi'u hargymell gan y Panel Grantiau i'r Sector Gwirfoddol.</p>	<p>Doyle, Vicki;</p>

Gweithdrefn Recriwtio
23/09/20 10:30 **Mwy Diogel**

I'r Cabinet ystyried y weithdrefn recriwtio mwy diogel a Pholisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n amlinellu'n glir ymrwymiad y Cyngor i recriwtio diogel ac arfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac atebolrwydd swyddogion i sicrhau hyn. Mae polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n ymwneud ag Ysgolion hefyd yn dangos ymrwymiad i sicrhau arfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cadarn mewn ysgolion

Donovan, Lynne;

Aelod Cabinet

Cyng. Marsden, Philippa;

Cyng. Gordon, Colin J;

Cyng. Stenner, Eluned;

Cyng. Jones, Barbara;

Cyng. Phipps, Lisa;

Cyng. Stenner, Eluned;

Cyng. George, Nigel;


Cyng. Marsden, Philippa;

Cyng. Gordon, Colin J;

Cyng. Stenner, Eluned;

Cyng. Phipps, Lisa;

Cyng. Stenner, Eluned;



Cyng. Gordon, Colin J;



CABINET – 24 MEHEFIN 2020

PWNC: ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2019-2020

ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Er mwyn hysbysu'r aelodau a cheisio eu cadarnhad o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 yn erbyn pedwar maes penodol o waith yr iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.
- 1.2 Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2020, fel sy'n ofynnol gan Safon 158 yr Iaith Gymraeg.

2. CRYNODEB

- 2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithredu materion yr Iaith Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac yn unol â Safon 158.
- 2.2 Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2019-2020 yn cwmpasu pedwar maes allweddol gofynnol.

Manylion Gofynion i Adrodd	Rhif y Safon Perthnasol (a'r is-gymal)
<p>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiad â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.</p>	147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)
<p>Sgiliau Iaith Staff</p> <p>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151);</p>	170 (2) (a) 151
<p>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</p> <p>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd cyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).</p>	170 (2) (b) 170 (2) (c) 152

<p>Recriwtio i Swyddi Gwag</p> <p>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	<p>170 (2) (ch) 154</p>
---	-----------------------------

- 2.3 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar sefyllfa bresennol y Cyngor mewn perthynas â gofynion statudol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 2.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd da a wnaed gan feysydd gwasanaeth wrth ymgorffori trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu gallu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- 2.5 Mae'n amlwg o gynnwys yr adroddiad fod y gwaith a wnaed hyd yma yn symud yn y cyfeiriad cywir. Bydd y cynnydd a'r momentwm da yn cael eu cynnal trwy barhau i weithio gyda phartneriaid ac ymateb i help, cyngor ac arfer gorau gan Gomisiynydd y Gymraeg a chyrrff rhanbarthol a chenedlaethol eraill.

3. ARGYMHELLION

- 3.1 Argymhellir bod Aelodau'r Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol ac yn cymeradwyo cyhoeddi'r wybodaeth hon fel cofnod o gynnydd tuag at, a chydymffurfio â, Safonau'r Gymraeg perthnasol.

4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 4.1 Yn unol â Safon 158 Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor, rhaid i'r Cyngor;
- Llunio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau y mae'n ddyletswydd arnynt i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.
 - Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau yr oedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
 - Cyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan erbyn 30 Mehefin 2020.

5. YR ADRODDIAD

- 5.1 Mae'r adroddiad blynyddol yn amlygu'r wybodaeth berfformiad canlynol;
- Cawsom 1 cwyn ffurfiol a 0 ymchwiliad ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd y gŵyn a gawsom yn ymwneud â'r llythyr Ymateb Cymunedol i'r Coronafeirws (COVID-19), a anfonwyd at bob trigolyn yn uniaith Saesneg. Ymatebwyd i'r gŵyn o fewn terfynau amser corfforaethol a chafodd ei chadarnhau.
 - Mae'r cynnydd yn y nifer o staff gyda sgiliau iaith Gymraeg yn parhau i gynyddu, gyda phob maes gwasanaeth heblaw am 2 yn nodi staff ychwanegol gyda sgiliau sy'n amrywio o ran ruglder. Gellir esbonio'r cynnydd yn rhannol gan broses mwy cadarn sydd ar waith i gofnodi'r wybodaeth, e.e. ar y pwynt penodi.

- Am y drydedd flwyddyn yn olynol bu cynnydd cyson yn y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg, gyda 223 o ddysgwyr. Yn dilyn archwiliad o'n gwasanaethau rheng flaen Cymraeg, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 gan Menter Iaith Caerffili, defnyddiwyd y canlyniadau i nodi bylchau wrth gyflenwi gwasanaethau a defnyddiwyd y cyrsiau 10 awr ar-lein fel man cychwyn, gyda nifer o'r cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer meysydd gwaith penodol.
- Cafodd 2401 o swyddi gwag eu hysbysebu. Hysbysebwyd 24 swydd fel Cymraeg hanfodol. Hysbysebwyd 10 swydd lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg, aseswyd bod 2327 o swyddi'n Gymraeg dymunol a 2336 lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg, roedd hyn yn rhannol oherwydd bod staff presennol eisoes â sgiliau Cymraeg. Mae gan bob swydd lefel Cymraeg dymunol fel lleiafswm y gofynion.

Nodwyd, o ddadansoddi'r data a gofnodwyd ynghylch swyddi gwag, bod y cwestiwn sy'n cael ei ofyn ar y ffurflen Asesiad yr Iaith Gymraeg '**Dim Gofyniad Iaith Gymraeg**' naill ai ddim yn cael ei ateb yn gywir neu wedi'i gofnodi'n gywir. Mae hwn yn faes y byddwn yn anelu at wella ac egluro'r canllawiau wrth i ni weithio gyda rheolwyr a Gwasanaethau i Bobl yn ystod y 9 mis nesaf.

- 5.2 Mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal ag adrodd ar y pedair prif faes gwaith, rydym hefyd wedi cyflwyno diweddariad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y camau a nodwyd yn Strategaeth yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, wrth ystyried y sefyllfa genedlaethol o ran Coronafeirws ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae casglu'r wybodaeth oddi wrth bawb sy'n rhan o gyflawni'r strategaeth yn anodd. Felly, rydym wedi penderfynu gohirio adrodd ar y cynnydd tan hydref 2020, ac rydym yn rhagweld y byddwn wedi cael yr amser i adolygu a diweddarau'r camau a osodwyd i gadw'r ddogfen yn gyfredol.

5.3 Casgliad

Mae'n amlwg o gynnwys yr adroddiad bod cynnydd wedi bod yn ystod 2019-2020, fodd bynnag, rhaid i ni beidio â llaesu dwylo, yn lle hynny mae angen i ni barhau i gyflawni a chynnal cydymffurfriad â'r safonau ym mhopeth a wnawn.

6. TYBIAETHAU:

- 6.1 Ni wnaed unrhyw dybiaethau.

7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISIÂU PERTHNASOL Y CYNGOR

- 7.1 Mae'r iaith Gymraeg yn thema drawsbynciol o'r Nodau Llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n effeithio ar bob polisi, swyddogaeth a gweithdrefn y Cyngor, gan gwmpasu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd a pholisïau mewmol sy'n cynnwys aelodau staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru sydd â chymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- 7.1.1 Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg fel amcan cydraddoldeb strategol yn ei rinwedd ei hun, gysylltiadau uniongyrchol â nifer o bolisïau a strategaethau cyfredol eraill, o fewn y Cyngor ac o ran gweithio mewn partneriaeth.

- 7.1.2 Mae yna hefyd strategaethau neu reoliadau Lywodraeth Cymru y mae gwaith iaith Gymraeg y Cyngor yn cysylltu â nhw, gan gynnwys "**Mwy Na Geiriau / More Than Just Words**"

(Strategaeth Iaith Gymraeg Cenedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol), "**Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg**" (Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru) a **Ffyniant i Bawb**.

7.2 Cynllun Corfforaethol 2018-2023.

Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion canlynol y cynllun corfforaethol 2018-2023;

Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Amcan 2 - Galluogi cyflogaeth

Amcan 6 - Cynorthwyo dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu lles

8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant fel y nodwyd yn **Adran 7 - Cysylltiadau â Pholisïau Perthnasol y Cyngor**. Mae hefyd yn gyson â'r pum ffordd o weithio:

- Hirdymor – Sicrhau bod gan staff y sgiliau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog nawr ac yn y dyfodol
- Atal – Bydd gwella gwasanaethau ac uwchsgilio staff yn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u dewis o ran iaith, yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau ac felly'n atal cwynion ac ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Integreiddio – Drwy ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, rydym yn gwneud i bawb deimlo'n gyfartal ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Cydweithio – Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i hyn ac yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg. Ceir rhagor o dystiolaeth o gydweithio â phartneriaid yn Strategaeth Pum Mlynedd y Gymraeg.
- Cynnwys - Fel y nodwyd o dan yr adran Cydweithio, mae'n rhaid i ni gynnwys ein partneriaid er mwyn cyflawni'r Strategaeth Iaith Pum Mlynedd a'n helpu i ddarparu gwasanaethau.

9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Cynhaliwyd asesiadau ac ymgynghoriad llawn Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth ei ddatblygu, felly ni wnaed asesiad llawn ar yr adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad yn asesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg.

10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn gan fod yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd symud yr agenda yn ei flaen yn golygu goblygiadau ariannol, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant iaith Gymraeg i staff.

Y gost o gefnogi staff i fynychu cyrsiau i ddysgu Cymraeg ar gyfer y gweithle ar gyfer blwyddyn 2019-2020, sy'n cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o dan y Safonau, oedd £3,512.56.

11. GOBLYGIADAU PERSONÉL

11.1 Nid oes goblygiadau personél i'r adroddiad hwn, er bod hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth

i'r gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg fynd yn ei flaen. Mae hyn yn berthnasol i adran 4 yr adroddiad blynyddol, sy'n canolbwyntio ar Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag.

11.2 Ni chaiff unrhyw swydd ei hysbysebu heb Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg.

12. YMGYNGHORIADAU

12.1 Mae holl ymatebion yr ymgynghoriadau wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad.

13. PWERAU STATUDOL

13.1 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

13.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Awdur: Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori (cullima@caerffili.gov.uk)

Ymgynghorwyr: Richard Edmunds – Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Y Cyng. Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chynllunio
Y Cyng. James Pritchard, Hyrwyddwr Cydraddoldeb
Christina Harrhy, Prif Weithredwr
Sue Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif
Stephen Harris, Pennaeth Gwasanaethau Gwella Busnes Dros Dro
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Kathryn Peters, Rheolwr Polisi Corfforaethol
Robert Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Ros Roberts, Rheolwr Perfformiad

Papurau Cefndir:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020

Amcanion a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016-2020

Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Adroddiad i'r Cabinet ar 18^{fed} Ionawr 2017 – Strategaeth y Gymraeg 2017-2022

Dogfennau Canllaw Amrywiol

(Mae'r rhain ar gael yn electronig er gwybodaeth ar Borthol y Fewnrwyd ac ar dudalennau perthnasol y rhyngwrwyd ar ddolen www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb)

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020

Paratowyd yn unol â gofynion y



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

30 Mehefin 2020

A greener place
Man gwyrddach



Cynnwys

Adran	Tudalen
Cyflwyniad	1
1. Safonau'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu	4
2. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd	12
3. Sgiliau Iaith Staff	16
4. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg	21
5. Recriwtio i Swyddi Gwag	23

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn ar gyfer 2019-2020 yn cynnwys y pedwar maes sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ac mae'n dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac aelodau o staff.

Manylion Gofynion i Adrodd	Perthnasol Rhif y Safon (ac is-gymal)
<p>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiad â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.</p>	<p>147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)</p>
<p>Sgiliau Iaith Staff</p> <p>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151);</p>	<p>170 (2) (a) 151</p>
<p>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</p> <p>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gysiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).</p>	<p>170 (2) (b) 170 (2) (c) 152</p>
<p>Recriwtio i Swyddi Gwag</p> <p>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	<p>170 (2) (ch) 154</p>

Ar Ebrill 1 2016, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 diweddaedig. Mae pedwar o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys yn benodol materion y Gymraeg, sef:

Amcanion Cydraddoldeb Strategol 4	-	Gwella Mynediad Cyfathrebu
Amcanion Cydraddoldeb Strategol 6	-	Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
Amcanion Cydraddoldeb Strategol 10	-	Amrywiaeth yn y Gweithle
Amcanion Cydraddoldeb Strategol 11	-	Cydymffurfiaeth Gorfforaethol

Mae Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a dadleuon ynghylch Safonau'r Gymraeg ers mis Ionawr 2014, ac wedi derbyn nifer o adroddiadau a chyflwyniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hysbysu'n llawn ynghylch cynnydd cyn y dyddiad Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, sef 23ain Ionawr 2017.

Hoffwn dynnu sylw at y llwyddiannau gwaith canlynol o 2019-2020, sy'n cynnwys:

